Clywed Lleisiau

Mae seiciatryddion yn ystyried bod clywed lleisiau yn rhithweledigaethau clywedol, ac yn llawer o achosion ystyrir ei fod yn symptom o sgitsoffrenia. Fodd bynnag, nid yw pawb sy'n clywed lleisiau wedi cael diagnosis eu bod yn dioddef o sgitsoffrenia.

Mae gan seiciatryddion, seicolegwyr a'r bobl sy'n clywed lleisiau theorïau anghyson ynglŷn â pham fod pobl yn clywed lleisiau. Mae rhai pobl yn dechrau clywed lleisiau o ganlyniad i straen neu drawma eithafol.

Mae'r Rhwydwaith Clywed Lleisiau (rhwydwaith genedlaethol i bobl sy'n clywed lleisiau), yn credu bod y lleisiau'n debyg i freuddwydion, yn symbolau o'n meddyliau'r isymwybod. Oherwydd bod y Rhwydwaith yn agored i lawer o farnau amrywiol, mae'n derbyn esboniad pob unigolyn sy'n clywed lleisiau.

Mynnu cymorth

Yn draddodiadol, y driniaeth arferol a roddwyd i bobl sy'n clywed lleisiau oedd tawelyddion cryf, a roddwyd i leihau'r rhithdybiaethau a'r rhithweledigaethau. Mae rhai pobl yn ymateb yn dda i'r driniaeth, fodd bynnag nid yw pawb yn ymateb i'r driniaeth.

Erbyn hyn, mae rhai seiciatryddion a seicolegwyr yn gweithio gyda phobl sy'n clywed lleisiau gan ddefnyddio therapïau trafod ac ymchwilio i ystyr y lleisiau.

Er nad yw hyn yn 'norm' eto, mae'r arfer hwn ar gynnydd. Wrth i'r gwelliant ymhlith unigolion sy'n cael eu hannog i drafod eu lleisiau ddod yn fwy amlwg, mae nifer cynyddol o bobl broffesiynol ym maes iechyd yn dechrau deall bod yr allwedd i ddeall y lleisiau'n gorwedd yng 'nghynnwys' y lleisiau.

West Wales Action for Mental Health
Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru

Working together to improve the standards of mental health throughout West Wales
Gweithio gyda'n gilydd i wella safonau iechyd meddwl ledled Gorllewin Cymru

WWAMH

http://www.wwamh.org.uk/

WWAMH
The Mount
18 Queen Street
Carmarthen
SA31 1JT

E - director@wwamh.org.uk
T - 01267 245572